

Gwybodaeth i Gleifion

Emboleiddiad Faricosel

Adran Radioleg

Mae'r daflen hon yn egluro'r driniaeth a elwir yn emboleiddiad faricosel. Mae'n egluro'r hyn sy'n digwydd a'r risgiau posibl. Nid y bwriad yw cymryd lle'r drafodaeth ddeallus rhwng eich meddyg a chi ond gall fod yn bwynt dechreuol ar gyfer trafodaeth o'r fath.

Pa un a ydych chi'n cael yr emboleiddiad faricosel wedi'i drefnu neu fel triniaeth frys, dylech gael eglurhad digonol cyn i chi arwyddo'r ffurflen gydsynio.

Beth yw emboleiddiad faricosel?

Abnormaledd o'r gwythiennau sy'n mynd â gwaed i ffwrdd oddi wrth y caill yw faricosel. Mae'r gwythiennau'n mynd yn fwy ac yn fwy amlwg yn debyg i wythiennau faricos yn y goes. Mae emboleiddiad yn creu rhwystr yn y gwythiennau hyn ac felly'n eu gwneud yn llai amlwg ac yn achosi i'r faricosel ddiflannu heb lawdriniaeth.

Pam fy mod i angen emboleiddiad faricosel?

Gall faricoselau achosi amrywiol broblemau gan gynnwys anffrwythlondeb. Yn y gorffennol, byddai wedi bod yn rhaid cynnal llawdriniaeth agored i waredu'r faricosel ond yn awr gellir ei drin gyda thechneg o'r enw emboleiddiad.

Pwy sydd wedi gwneud y penderfyniad?

Bydd yr ymgynghorydd sy'n gyfrifol am eich achos a'r radiolegydd sy'n cynnal yr emboleiddiad faricosel wedi trafod y sefyllfa ac yn teimlo mai hon yw'r driniaeth orau i chi. Fodd bynnag, byddwch chi'n cael cyfle hefyd iddyn nhw ystyried eich barn chi ac os, ar ôl trafod gyda'ch meddyg, eich bod yn penderfynu nad ydych am gael y driniaeth, gallwch benderfynu yn ei herbyn.

Pwy fydd yn cynnal yr emboleiddiad faricosel?

Radiologydd sy'n feddyg wedi'i hyfforddi'n arbennig fydd yn gwneud hyn, Mae gan Radiolegwyr arbenigedd penodol i ddefnyddio cyfarpar pelydr-x a hefyd i ddehongli'r delweddau a gynhrychir. Bydd y Radiologydd yn edrych ar y delweddau hyn tra'n cynnal y driniaeth.

Ble bydd y driniaeth yn cael ei chynnal?

Fel arfer, yn yr adran belydr-x mewn ystafell 'sgrinio' arbennig sydd ar gyfer triniaethau arbenigol.

Sut galla i baratoi ar gyfer emboleiddiad faricosel?

Bydd yn rhaid i chi aros i mewn yn yr ysbyty. Mae'n bosibl y byddan nhw'n gofyn i chi beidio â bwyta am bedair awr cyn y driniaeth er efallai y cewch yfed ychydig o ddŵr. Mae'n bosibl y byddwch chi'n cael tawelydd i leddfu pryder. Gofynnir i chi wisgo gŵn ysbyty gan fod y driniaeth fel arfer yn cael ei chynnal drwy ddefnyddio gwythien yn ochr eich gwddf.

Os oes gennych unrhyw alergeddau, rhaid i chi roi gwybod i'ch meddyg. Os ydych chi wedi ymateb i gyfrwng cyferbyniol mewnwythiennol yn y gorffennol (y lliwydd a ddefnyddir ar gyfer pelydr-x yr aren a sganiau CT), yna bydd yn rhaid i chi hefyd ddweud wrth eich meddyg am hyn.

Beth yn union sy'n digwydd yn ystod emboleiddiad faricosel?

Byddwch chi'n gorwedd ar fwrdd pelydr-x, fel arfer ar wastad eich cefn. Bydd yn rhaid i chi gael nodwydd mewn gwythien yn eich braich er mwyn i'r radiologydd rhoi tawelydd neu boen laddwyr i chi.

Mae'n bosibl hefyd y bydd gennych ddyfais monitro wedi'i roi ar eich brest a'ch bys a hefyd efallai y byddan nhw'n rhoi ocsigen i chi drwy diwbiau bach yn eich trwyn.

Bydd y radiologydd yn cadw popeth mor ddihaunt ag sy'n bosibl ac efallai'n gwisgo gŵn theatr a menig llawdriniaethau. Byddan nhw'n rhoi antiseptig ar y croen ger y lle y byddan nhw'n torri, fel arfer y gwddf (ond weithiau'r forddwyd) ac yna'n gorchuddio mwyafrif gweddill eich corff â lliain theatr). Bydd y croen a'r meinwe dyfnach dros y wythien yn cael eu gwneud yn ddideimlad gydag anaestheteg leol ac yna byddan nhw'n rhoi nodwydd i mewn i'r wythien yn eich gwddf.

Pan fydd y radiologydd yn fodlon bod hon yn ei lle'n iawn, bydd gwifren dywys yn cael ei rhoi drwy'r nodwydd ac i mewn i'r wythien. Yna, tynnir

y nodwydd allan gan ganiatáu i diwb plastig tenau, y cathetr, gael ei roi dros y wifren ac i mewn i'r wythïen.

Mae'r radiolegydd yn defnyddio'r cyfarpar pelydr-x i sicrhau bod y cathetr a'r wifren dywys yn cael eu symud i'r man cywir, i mewn i'r faricosel. Yna tynnir y wifren. Gall y radiolegydd osod rhwystr ar y gwythiennau abnormal naill ai drwy chwistrellu hylif arbennig i lawr y cathetr neu roi coiliau metel bach i lawr. Mae'r coiliau metel hyn fel sbringiau bach ac yn achosi i'r gwaed o'u cwmpas geulo ac felly creu rhwystr ar y wythïen.

Bydd y radiolegydd yn chwistrellu cyfeintiau bach o liwydd arbennig, a elwir yn gyfrwng gwrthgyferbyniol, i lawr y cathetr i wirio bod rhwystr wedi'i osod yn foddhaol yn y gwythiennau abnormal. Pan fydd y rhwystr yn ei le yn gywir, bydd yn tynnu'r cathetr. Bydd y radiolegydd yn pwyso'n drwm ar y croen lle mae'r twll am sawl munud i atal unrhyw waedu.

A fydd hyn yn brifo?

Pan fyddan nhw'n rhoi'r anaestheteg leol, byddwch chi'n teimlo pigiad i ddechrau ond mae hwn yn diflannu'n fuan ac yna bydd y croen a'r meinwe dyfnach yn ddideimlad. Ar ôl hyn, ni ddylai'r driniaeth fod yn boenus.

Bydd nyrs, neu aelod arall o'r staff, yn sefyll yn eich ymyl ac yn gofalu amdanoch. Os bydd y driniaeth yn anghyfforddus i chi, yna byddan nhw'n gallu trefnu i chi gael poen laddwyr drwy'r nodwydd yn eich braich. Byddwch chi'n effro yn ystod y driniaeth ac yn gallu dweud wrth y radiolegydd os byddwch chi mewn poen neu'n anghyfforddus mewn unrhyw ffordd arall.

Pa mor hir fydd y driniaeth yn para?

Mae sefyllfa pob claf yn wahanol ac nid yw bob amser yn hawdd rhagweld pa mor gymhleth neu syml fydd y driniaeth. Yn gyffredinol, bydd y driniaeth drosodd mewn hanner awr ond mae'n bosibl y byddwch yn yr adran belydr-x am tuag awr.

Beth sy'n digwydd wedyn?

Byddan nhw'n mynd â chi'n ôl i'ch ward ar droli. Bydd nyrsys yn y ward yn cynnal y profion arferol fel gwirio eich pŷls a'ch pwysau gwaed i sicrhau nad oes unrhyw ddrwg effeithiau.

Byddan nhw hefyd yn edrych ar y twll yn eich croen i sicrhau nad yw'n gwaedu. Fel arfer, byddwch chi'n aros yn y gwely am ychydig oriau hyd

nes i chi wella. Mae'n bosibl y byddwch chi'n mynd adref yr un diwrnod neu'n cael eich cadw yn yr ysbyty dros nos.

A oes unrhyw risgiau neu gymhlethdodau?

Mae emboleiddiad faricosel yn driniaeth hynod ddiogel ond mae rhai risgiau a chymhlethdodau a all godi. Mae'n bosibl y bydd clais bach weithiau, o'r enw haematoma, yn y man lle'r oedd y nodwydd wedi mynd i mewn. Mae hyn yn gyffredin iawn. Os bydd hwn yn mynd yn glais mawr, yna mae risg o haint ac yna byddai'n rhaid cael gwrthfotigau. Yn anghyffredin iawn, gall y cathetr wneud rhywfaint o niwed i'r wythien ac efallai bydd angen llawdriniaeth neu driniaeth radiolegol arall i drin hwn.

Yn anffodus, mae posibilrwydd bob amser y gall y faricosel ddod yn ôl eto fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd yn ddiweddarach, er ei fod fel petai wedi'i wella i ddechrau. Os bydd hyn yn digwydd, yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid cynnal y driniaeth eto neu efallai y byddan nhw'n eich cynghori i gael llawdriniaeth. Er waetha'r cymhlethdodau posibl hyn, mae'r driniaeth fel arfer yn hynod ddiogel ac yn cael ei chynnal heb unrhyw sgil effeithiau arwyddocaol o gwbl.

I gloi...

Dylech fod wedi cael atebion i rai o'ch cwestiynau yn y daflen hon ond cofiwch mai pwynt dechrau yw hon i drafodaeth am eich triniaeth gyda'r meddygon sy'n gofalu amdanoch.

Cofiwch sicrhau eich bod wedi cael digon o wybodaeth am y driniaeth cyn i chi arwyddo'r ffurflen gydsynio.

I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â:-

Y Nyrsys Radioleg ar:- 01633 - 234327

Adran Radioleg, Ysbyty Brenhinol Gwent

Addaswyd gyda diolch o © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, Mai 2008

Cymdeithas Brydeinig Radioleg Ymyriadol (BSIR) a Grŵp Cyswllt Cleifion Radioleg

Glinigol (CRPLG) Coleg Brenhinol y Radiolegwyr.

Radiology Info.org - [dolen o wefan BSIR.](#)